

IMI Light Vehicle Maintenance and Repair Principles (Extended Diploma) Level 2



Yn gryno

Mae'r cwrs hwn yn darparu dealltwriaeth drylwyr a dynamig o'r maes cynnal a chadw a thrwsio cerbydau modur.

Dyma'r cwrs i chi os...

- ... Ydych eisiau symud yn eich blaen at lefel gradd
- ... Ydych eisiau mynd yn dechnegydd diagnostig medrus
- ... Ydych yn weithgar ac yn dda am ddatrys problemau.

Beth fyddaf yn ei wneud?

Byddwch yn ymdrin ag unedau'n cynnwys gwaith cynnal a chadw cyffredinol ar gerbydau, tynnu ac ailosod cydrannau (cydrannau injans, cydrannau trydanol a chydannau siasis),



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

archwilio cerbydau, glanhau, unedau trawsyrru, diagnosiso diffygion, iechyd a diogelwch, mathemateg, gwyddoniaeth a TGCh cerbydau.

Os byddwch yn symud yn eich blaen at brentisiaeth mewn cerbydau modur, bydd y cwrs hwn yn darparu'r elfen ddamcaniaethol gyflawn sy'n angenrheidiol ar ei chyfer.

Byddwch yn cael eich asesu trwy gyfrwng profion ac aseiniadau ymarferol ac ysgrifenedig. Ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch yn ennill:

Diploma Estynedig Lefel 2 mewn Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau
Cymwysterau ategol priodol i ehangu eich set sgiliau a diwallu anghenion y diwydiant

[Gweithgareddau Sgiliau](#) (fel rhan o'r Her Tystysgrif Sgiliau)

[Mathemateg a Saesneg](#) (os na chwsoch Radd C neu uwch ar lefel TGAU bydd angen ichi fynychu dosbarthiadau ychwanegol)

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I ddilyn y cwrs, byddwch angen Diploma Lefel 1 mewn Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau Ysgafn Gradd Teilyngdod a naill ai TGAU Mathemateg/Mathemateg Rhifedd neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf, Gradd C.

Mae'n ofynnol ymrwymo'n llwyr i fynychu'r cwrs, a hefyd mae'r gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm yn ofynnol. Dylech fod â dymuniad cryf i weithio yn y diwydiant cerbydau modur, dylech gadw at ethos y coleg a dylech fod yn barod i wella eich lefel mewn pynciau academaidd.

Beth sy'n digwydd nesaf?

HNC mewn Peirianeg Fodurol
Gwaith
Astudiaeth ar lefel uwch mewn prifysgol

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd angen ichi brynu Cyfarpar Diogelu Personol priodol, fel esgidiau ac oferôls, a fydd yn costio oddeutu £40.00. Hefyd, bydd angen ichi ddarparu eich defnyddiau ysgrifennu a'ch

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

ffolderi eich hun.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

